**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 18 Gorffennaf 2023**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Y Cynghorydd Rhys Thomas – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 3 ar y Rhaglen |
| **3** | MATERION BRYS | Darpariaeth Prydau Ysgol am Ddim yn ystod y Gwyliau - cyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru na fyddai prydau ysgol am ddim yn cael eu cynnig dros wyliau'r haf. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar gywiro'r gwall teipograffyddol, derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2023 a chadarnhau eu bod yn gywir.* |
| **5** | PREMIWM TRETH CYNGOR AR AIL GARTREFI / CARTREFI GWAG HIRDYMOR | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn argymell i'r Cyngor -*<br><br>*(a) bod y premiymau ail gartrefi safonol, ac eiddo gwag yn yr hirdymor yr un fath, i leihau nifer yr achosion o drethdalwyr yn osgoi talu (a fyddai efallai'n gwneud cais i symud i'r categori mwyaf ffafriol) ac i sicrhau nad yw'r baich gweinyddol yn cynyddu'n sylweddol, ac eithrio ar gyfer eiddo sy'n gorwedd o fewn yr argymhelliad (c) isod;*<br><br>*(b) bod y premiwm a godir ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor yn aros ar 50% o Ebrill 2023 ac yna'n cynyddu i 100% o Ebrill 2024 ac i 150% o Ebrill 2025, a*<br><br>*(c) bod eiddo sydd wedi bod yn wag a heb ddodrefn ers 5 mlynedd neu fwy yn talu premiwm o 50% yn fwy na'r premiwm safonol.* |
| **6** | ADRODDIAD CYLLID | *PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2023/24 a'r cynnydd yn ôl y strategaeth y cytunwyd arni.* |
| **7** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.* |
| **8** | DYFARNU CONTRACT | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | GWASANAETHAU YSWIRIANT | *(a) cymeradwyo dyfarnu'r contractau o'r broses dendro gychwynnol fel yr amlinellir yn Adran 4.1 a 4.2 yr adroddiad ar gyfer Lot 3 i 9, ac yn*<br><br>*(b) nodi'r sefyllfa o ran Lot 1 a 2 ac yn dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Cyllid ac Archwilio (Swyddog Adran 151) ddyfarnu contractau mewn perthynas â Lot 1 a 2 mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor.* |
| **9** | AMRYWIO CONTRACT HIRSEFYDLOG I DDARPARU STAFF AR GYFER EIN GWASANAETH CYFLEOEDD GWAITH MEWNOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo cyflwyno estyniad i'r contract Cynnig, gyda manylion a thelerau ac amodau diwygiedig dros dro, am gyfnod o flwyddyn gyda'r dewis i ymestyn am gyfnod pellach o 12 mis.* |